# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2017-2018

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **23 Mai 2018.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Nick Davies | **Adran Etholiadol:** | Uplands |

| | |
|---|---|
| **Swydd Cyflog Uwch:** | Dd/b |

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Rydw i wedi cynnal cymorthfeydd rheolaidd ym marchnad Uplands gyda fy nghydweithiwr yn y ward. Gan fod y farchnad yn ddigwyddiad poblogaidd a phrysur mae hyn yn sicrhau'r gwelededd mwyaf, hygyrchedd a chyswllt â phreswylwyr (os bydd unrhyw breswylydd yn gwneud cais am gyfarfod preifat, gellir trefnu hyn). Rydw i wedi gweithio gyda phreswylwyr unigol neu grwpiau'n gyhoeddus a thu ôl i'r llenni er mwyn gwella safon bywyd holl breswylwyr Uplands. Yn benodol rydw i wedi ceisio goresgyn rhaniadau rhwng preswylwyr tymor hir a myfyrwyr, gan geisio gweithio ar y cyd â phob rhan o'r gymuned er mwyn creu Uplands sy'n gweithio i bawb.

Er lles cydlyniant cymunedol ceisiais amddiffyn Uplands rhag gormodedd o dai amlfeddiannaeth drwy gyfathrebu â phreswylwyr a swyddogion y cyngor wrth lunio'r Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) drafft. Yn dilyn y penderfyniad i beidio â mabwysiadu'r CCA, rwyf wedi ceisio amddiffyn Uplands yn erbyn rhagor o dai amlfeddiannaeth drwy wrthwynebu ceisiadau cynllunio, er nad oes modd cyfreithiol gadarn o wrthwynebu apeliadau i'r arolygiaeth gynllunio. Cyfathrebais â phreswylwyr a swyddogion y cyngor wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol o ran nifer y tai amlfeddiannaeth. Rydw i hefyd wedi ymgymryd â phryderon preswylwyr am dai amlfeddiannaeth sydd wedi cael eu rheoli'n wael.

Rydw i wedi ymgymryd â phryderon preswylwyr am dagfeydd traffig a pharcio anystyriol neu anghyfreithlon y tu allan i dair ysgol y ward, gan geisio cydweithio ag ysgolion, preswylwyr a rhieni am ateb ymarferol a pharhaol.

Gweithiais â'r heddlu mewn cyfarfodydd PACT ac yn anffurfiol wrth fynd i'r afael â phryderon y gymuned megis ymddygiad gwrthgymdeithasol. Rydw i wedi annog cyfranogiad cynrychiolwyr myfyrwyr mewn cyfarfodydd PACT, fel y bydd y digwyddiadau hyn yn adlewyrchu'r gymuned gyfan ac y gallwn ddatrys problemau sy'n ymddangos gyda'n gilydd.

Gweithiais â'r brifysgol, preswylwyr, myfyrwyr a'r heddlu ynghylch y ffaith bod staff y brifysgol yn parcio yn ystod y dydd yn Brynmill a bod myfyrwyr yn dod â cheir i Abertawe, gan geisio dod o hyd i ddewisiadau eraill.

Gweithiais i ehangu'r rhwydwaith beicio i mewn i Uplands drwy ehangu'r rhwydwaith o'r system newydd ar Ffordd y Brenin ar hyd Stryd Mansel a Heol Walter.

Cefnogais Farchnad Uplands a Chymdeithas Masnachwyr Uplands yn eu hymdrechion i wella lles masnachol a hamdden Uplands. Ar y cyd â fy nghydweithiwr yn y ward, rwyf wedi gweithio gyda Marchnad Uplands a swyddogion y cyngor er mwyn darganfod ateb i anawsterau parcio ar ddiwrnodau'r farchnad.

Defnyddiais fy nghyllideb gymunedol er mwyn darparu bolard newydd ger mynediad Chwarel Rosehill, sy'n atal gorgyffwrdd gan gerbydau.

**Rhan 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr adran etholiadol.

Gallwch weld presenoldeb y cynghorydd yma.

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Gallwch weld presenoldeb y cynghorydd yma.
Gallwch weld penodiadau'r cynghorydd i gyrff allanol yma.

Fi yw hyrwyddwr y cyngor ar gyfer trafnidiaeth gynaliadwy megis cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus, mewn geiriau eraill unrhyw ffordd o osgoi defnyddio car preifat. Cydweithiais â'r Cabinet a chydweithwyr y cyngor, swyddogion, y prifysgolion a gweithredwyr bws er mwyn gwneud i'r Bartneriaeth Ansawdd Bysus weithio i wella'r rhwydwaith bysus a'r isadeiledd, er mwyn sicrhau bod teithio ar y bws yn opsiwn atyniadol ar gyfer pobl Abertawe.
Rydw i'n cadeirio'r Rhaglen Gweithredu Beicio lle rydw i'n gweithio gyda swyddogion a sefydliadau beicio megis Wheelrights a Sustrans er mwyn gwella ac ehangu'r rhwydwaith beicio ar draws Abertawe fel bod beicio i'r gwaith neu i astudio, i'r siopau neu i gymdeithasu'n cael ei hystyried yn hawdd ac yn ddiogel. Rydw i wedi cysylltu â Wheelwrights yn ystod yr ymgynghoriad â phreswylwyr ar ehangu'r llwybr beicio i mewn i Uplands.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Ar ôl llwyddo, ynghyd â chydweithwyr y cyngor ac Aelodau Cynulliad, i ddarbwyllo Llywodraeth Cymru i newid rheolau cynllunio i roi mwy o reolaeth i'r cyngor dros geisiadau cynllunio HMO, bûm yn gweithio gyda chydweithwyr y cyngor er mwyn gweithredu Canllawiau Cynllunio Atodol effeithiol i ddiogelu Uplands rhag gormodedd o dai amlfeddiannaeth a sicrhau y gellir gwrthsefyll apeliadau yn erbyn yr awdurdod i'r arolygiaeth gynllunio. Er lles cydlyniant cymunedol a chynnal cymuned gytbwys, rydw i wedi parhau i weithio ar gyfer mecanwaith effeithiol ac ymarferol er mwyn rheoli nifer y tai amlfeddiannaeth fel rhan o Gynllun Datblygu Lleol yr awdurdod. Wrth wneud hyn rwy'n parhau i fod yn ymrwymedig i wasanaethu buddion holl breswylwyr Uplands, p'un a ydynt yn fyfyrwyr neu'n breswylwyr tymor hir.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Gallwch weld hyfforddiant cynghorwyr yma.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Mae Uplands yn ffynnu. Mae'n gymuned fywiog a lliwgar. Er mwyn i hyn barhau mae'n rhaid bod cydbwysedd rhwng buddion y preswylwyr tymor hir, y rhai sy'n astudio yma, y rhai sy'n gweithio yma a'r economi gyda'r nos yn Uplands. Fel cynrychiolydd lleol mae llawer o fy ngwaith wedi ymwneud â diogelu'r cydbwysedd hwn a sicrhau bod Uplands cystal ag y gall fod.

# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2017-2018

**Rhan 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,400

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma.
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 31/10/2018 |